# D: ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA (DPIA):

| | |
|---|---|
| **Pwnc** | Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) |
| **Awdur** | Huw ap Tegwyn |
| **Perchennog Asedau Gwybodaeth** | Tania Nicholson |
| **Dyddiad** | 12/05/2025 |

**Gwybodaeth am Ddiwygio'r Ddogfen**

| Fersiwn | Dyddiad | Diwygiad | Awdur |
|---|---|---|---|
| **1.0** | 12/05/2025 | | Huw Ap Tegwyn |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Cam un: Nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**

Cyflwyniad

1. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data (yr Asesiad) yn ystyried goblygiadau cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, sef Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) ("y Bil"), o safbwynt diogelu data.

2. Bydd yr Asesiad yn ystyried y risgiau cyffredinol i hawliau a rhyddid unigolion o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd gan ystyried tebygolrwydd a difrifoldeb yr effaith ar destunau data ac asesu a oes cyfiawnhad dros y risgiau hynny ac a ydynt yn angenrheidiol ac yn gymesur.

3. Mae'r Asesiad yn ystyried yr effeithiau ar ddiogelu data sy'n gysylltiedig â darpariaethau'r Bil, nid y systemau a'r gwasanaethau digidol a allai ddeillio ohono. Ar y cam cynnar hwn, nid yw'r gwaith o ddylunio'r systemau a'r gwasanaethau hyn wedi dechrau eto ac felly nid oes modd asesu eu heffeithiau. Bydd angen i'r sefydliadau sy'n gyfrifol am y systemau hyn eu dylunio i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data[1].

4. Mae'r Bil yn cyflwyno cyfundrefn diogelwch adeiladau newydd yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y cam meddiannu yng nghylch oes adeilad. Bydd yn ymdrin â rheoleiddio risgiau i ddiogelwch adeiladau mewn adeiladau preswyl

[1] O fewn yr ystyr a nodir yn adran 3(9) o Ddeddf Diogelu Data 1998

amlfeddiannaeth penodol ("adeiladau rheoleiddiedig"). Caiff diogelwch tân mewn "tai amlfeddiannaeth perthnasol" ei reoleiddio o dan y Bil hefyd. Bydd darpariaethau'r Bil yn helpu i fynd i'r afael â materion a nodwyd gan Adolygiad Hackitt, Ymchwiliad Tŵr Grenfell, a Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru ar ôl y tân trasig yn Nhŵr Grenfell, Llundain, ym mis Mehefin 2017. Mae'r Bil yn cynnwys gosod dyletswyddau statudol ar bersonau mewn perthynas â diogelwch adeiladau a systemau i orfodi'r dyletswyddau hynny. Pan fydd person atebol yn endid fel cwmni, elusen gorfforedig, landlord cymdeithasol cofrestredig neu gorff cyhoeddus, e.e. pan mai cwmni yw'r prif berson atebol, byddai ei enw yn cael ei gynnwys ar y gofrestr o dan adran 17(2)(e), ac ni fyddai angen prosesu unrhyw ddata personol[2]. O dan y Bil, bydd yn rhaid cofrestru "adeiladau rheoleiddiedig" penodol.

5. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn rheolydd ar gyfer data personol a brosesir mewn perthynas â darpariaethau a wneir yn y Bil. Yn hytrach,
    a. yr awdurdodau diogelwch adeiladau[3]
    b. awdurdodau diogelwch tân[4]
    c. y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
    d. prif berson atebol / person(au)atebol[5] mewn perthynas ag "adeiladau rheoleiddiedig"
    e. deiliaid dyletswydd mewn perthynas â "thai amlfeddiannaeth perthnasol"

    fydd y rheolyddion data ar gyfer prosesu data personol wrth gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau. Byddant yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.

6. Er mwyn sicrhau atebolrwydd mewn perthynas â diogelwch adeiladau rheoleiddiedig a thai amlfeddiannaeth perthnasol, bydd angen sefydlu pwy sy'n gyfrifol am gyflawni dyletswyddau allweddol. Er mwyn i breswylwyr allu gwneud cwynion am faterion diogelwch perthnasol, mae angen iddynt wybod i bwy y gallant gyflwyno'r cwynion hyn.
7. Mae'r Asesiad hwn yn ddogfen fyw a chaiff pob agwedd ei hadolygu'n barhaus wrth i'r Bil fynd drwy'r broses graffu.

## Cam dau: Disgrifio'r llifoedd gwybodaeth

[2] Cynhaliwyd yr asesiad hwn ar y sail mai personau naturiol fydd yn cyflawni'r dyletswyddau a geir yn y Bil, oherwydd ystyrir ei bod yn fwy priodol i wneud hyn na thanbrisio faint o ddata personol a gaiff eu prosesu.
[3] Caiff y rhain eu diffinio yn adran 100 o'r Bil
[4] Caiff y rhain eu diffinio yn adran 104 o'r Bil, yn bennaf, y tri Awdurdod Tân ac Achub. Os bydd unrhyw adeiladau o fewn cwmpas y Bil yn safleoedd y Goron, yr awdurdod diogelwch tân ar gyfer yr adeiladau hynny fydd yr arolygydd / arolygydd cynorthwyol a benodwyd o dan a28(1) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
[5] Mae cyfeiriadau yn yr asesiad hwn at bersonau atebol yn cynnwys y rhai a gaiff eu trin fel personau atebol o dan adran 35 o'r Bil.

8. Bydd angen prosesu data personol o dan yr adrannau canlynol yn y Bil[6]:

   a. Adran 17: rhaid i gofnod ar y gofrestr ar gyfer adeilad categori 1 neu adeilad categori 2 gynnwys enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y prif berson atebol a chyfeiriad yn y DU lle gellir anfon hysbysiadau a dogfennau eraill[7]. Mae dyletswyddau cysylltiedig mewn perthynas â diweddaru'r wybodaeth yn y gofrestr yn gyson (adrannau 20 – 23). Bydd angen yr wybodaeth hon ar yr awdurdod diogelwch adeiladau at ddibenion atebolrwydd a gorfodi ac, er enghraifft, at ddibenion gwneud cyfarwyddyd o dan adran 41 (tystysgrifau adeiladau).

   b. Adran 37: bydd dyletswydd ar y prif berson atebol ar gyfer adeilad categori 1 i sefydlu a gweithredu "system cofnodi digwyddiadau", sy'n cynnwys rhoi gwybodaeth i bersonau atebol ar gyfer yr adeilad. Bydd hyn yn golygu y caiff data personol personau atebol eu prosesu, fel bod pobl briodol yn cael eu hysbysu am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r adeilad, er enghraifft.

   c. Adrannau 48 a 50: mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â system gwynion a gaiff ei sefydlu a'i gweithredu gan brif bersonau atebol a'r awdurdod diogelwch adeiladau. Er y bydd pwerau i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi mwy o fanylion am y systemau hyn, mae'r adrannau hyn eu hunain yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu a gweithredu'r systemau hyn ac mae hynny'n debygol o arwain at brosesu data personol.

   d. Adrannau 51(4), 52(4) a 76(4): mae'r adrannau hyn yn gosod dyletswyddau ar breswylwyr sy'n oedolion a pherchnogion unedau preswyl i gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth a wneir gan bersonau penodol pan fo'r wybodaeth yn *angenrheidiol* er mwyn gallu cydymffurfio â dyletswyddau penodol. Mae'n debygol y gallai ceisiadau gael eu gwneud am ddata personol. Bwriedir i'r darpariaethau hyn sicrhau y gall y rhai sydd â dyletswyddau allweddol o dan Bil gydymffurfio â'r dyletswyddau hynny h.y. bod ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol i wneud hynny.

   e. Adrannau 53 a 77: mae'r Bil yn galluogi personau penodol i ofyn am gael mynediad i safleoedd a gwneud cais am "orchymyn mynediad" neu "orchymyn mynediad i dŷ amlfeddiannaeth" o dan amgylchiadau penodol, ac er mwyn i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl wneud gorchmynion o'r fath, mae adran 61 yn gwneud darpariaeth gysylltiedig. Bydd ceisiadau o dan yr adrannau hyn, yn ogystal â gwneud gorchmynion mynediad, yn arwain at brosesu data personol y person atebol/deiliad dyletswydd sy'n gwneud y ceisiadau hynny[8], a data personol y preswylydd (os yw'r manylion hynny'n hysbys). Diben y darpariaethau hyn yw galluogi personau atebol/deiliaid dyletswydd[9] i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil oherwydd heb allu cael mynediad i safleoedd

[7] Yn achos prif bersonau atebol sy'n endidau cyfreithiol, derbynnir na fydd angen prosesu data personol yn hyn o beth.
[8] A'r rhai o dan adran 53(3) lle bo hynny'n berthnasol.
[9] Gan gynnwys y rhai a gaiff eu trin fel personau atebol o dan adran 35.

o fewn yr adeilad, byddai effeithiolrwydd y gyfundrefn yn cael ei danseilio'n sylweddol.

f. Adrannau 54 a 55: mae'r adrannau hyn yn galluogi personau atebol i roi “hysbysiadau rhybuddio” a galluogi'r tribiwnlys i wneud “gorchmynion torri” mewn perthynas ag achosion o dorri dyletswyddau preswylwyr / perchnogion. Pan gaiff hysbysiadau o'r fath eu cyflwyno a phan gaiff gorchmynion o'r fath eu gwneud, bydd rhywfaint o ddata personol yn cael eu prosesu e.e. enw a chyfeiriad (os ydynt yn hysbys) y derbynnydd. Ystyrir bod angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y rhai yr honnir eu bod wedi torri dyletswyddau yn cael eu hadnabod ac y gallant gymryd rhan mewn unrhyw achosion o dan adran 55.

g. Adrannau 56 – 58: mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adolygu penderfyniadau penodol ac apelio yn eu herbyn. Bydd y darpariaethau hyn yn arwain at brosesu data personol e.e. mae'n anochel y bydd angen i enw'r ceisydd gael ei gynnwys yn y cais am adolygiad/apêl.

h. Adrannau 60, 61[10], 78 a 99: mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chydweithio a chydgysylltu. I gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, mae'n anochel y bydd angen prosesu rhywfaint o ddata personol e.e. enw a manylion cyswllt y rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Felly, er enghraifft, er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'n debygol y bydd angen i bob person atebol gael manylion pob person atebol arall[11]. Ystyrir ei bod yn hanfodol i'r rhai sydd â dyletswyddau allweddol o dan y Bil a Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 gydweithio a chydgysylltu â'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'u dyletswyddau o dan y gyfundrefn.

i. Adran 65: mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Landlord a Thenant 1987, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i “wybodaeth am ddiogelwch adeiladau” gael eu rhoi i denantiaid o dan amgylchiadau penodol. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys data personol a'r bwriad yw sicrhau bod tenantiaid yn cael gwybodaeth sy'n berthnasol i ddiogelwch yr adeilad.

j. Adrannau 82 – 87: mae'r adrannau yn gwneud darpariaeth i'r gyfundrefn gael ei gorfodi gan awdurdodau diogelwch tân ac awdurdodau diogelwch adeiladau (fel y bo'n berthnasol). Gwneir darpariaeth i roi “hysbysiadau gwybodaeth”, “hysbysiadau cydymffurfio”, “hysbysiadau gwahardd” ac apeliadau yn erbyn hysbysiadau cydymffurfio a gwahardd. Lle dibynnir ar y darpariaethau hyn, bydd yn anochel y caiff data personol (lle bo data o'r fath yn hysbys[12]) eu prosesu e.e. bydd y person y caiff yr hysbysiad ei gyflwyno iddo ei enwi ar yr hysbysiad, ynghyd â'i fanylion cyswllt. Bydd y darpariaethau hyn yn fecanwaith hanfodol i sicrhau bod dyletswyddau

[10] Ac adran 63 pan fo rheolwr adran 24 (o dan Ddeddf Landlord a Thenant 1987) yn ymgymryd â dyletswyddau penodol neu pan fo gorchymyn mesurau arbennig mewn grym.

[11] Pan fo person atebol yn endid cyfreithiol, derbynnir na fydd angen prosesu data personol o reidrwydd.

[12] Mae adran 106 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rhoi hysbysiadau ac mae adran 107 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rhoi hysbysiadau sy'n ymwneud â phersonau anhysbys.

o dan y gyfundrefn yn cael eu cyflawni a sicrhau y gall awdurdodau gorfodi ymchwilio/cymryd camau gorfodi.

k. Adrannau 89 – 92: mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth i alluogi “swyddogion awdurdodedig” (person sydd wedi'i awdurdodi gan awdurdod gorfodi o dan yr adran hon) i gymryd camau penodol e.e. mynd i mewn i safle preswyl. Fel gydag adrannau 82 – 87, mae'n debygol y bydd angen prosesu data personol o dan yr adrannau hyn e.e. enw'r swyddog awdurdodedig ac enw'r rhai sydd yng nghyfeiriad y safle sy'n destun y warant (os ydynt yn hysbys), a'r cyfeiriad ei hun.

l. Adran 96 ac Atodlen [1]: mae'r rhain yn galluogi gorchymyn mesurau arbennig i gael ei wneud o dan amgylchiadau penodol ac yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer cais o'r fath. Bydd angen prosesu rhywfaint o ddata personol, gan gynnwys enw a chyfeiriad y rheolwr mesurau arbennig a bydd yn rhaid rhoi'r manylion hyn i bob “person â diddordeb” (Atodlen [1] paragraff 3(c)). Diben y darpariaethau hyn yw ei gwneud yn bosibl i reolwyr mesurau arbennig gael eu penodi pan geir methiant difrifol i gydymffurfio â dyletswydd a osodir gan y Ddeddf hon (neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon), neu fethiant i gydymffurfio â dyletswydd o'r fath ar ddau achlysur neu fwy.

m. Troseddau: mae'r Bil yn cynnwys nifer o droseddau a bydd camau erlyn yn arwain at brosesu data personol h.y. data'r sawl sy'n cael ei gyhuddo.

**Pwerau i wneud rheoliadau**

9. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â materion gwahanol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori, pan fo hynny'n briodol, ar y rheoliadau hyn, gan gynnwys cynnal rhagor o asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data lle bo hynny'n briodol ac ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Faint o ddata a gaiff eu prosesu**

10. Mae tabl 1 yn rhoi amcangyfrif o nifer yr adeiladau categori 1, 2 a 3.

**Tabl 1: Cyfanswm yr Adeiladau Rheoleiddiedig yng Nghymru**

| Categori | Amcangyfrif o nifer yr adeiladau |
|---|---:|
| categori 1 (adeiladau 18m+) | 181 |
| categori 2 (adeiladau 11- <18m) | 449 |
| categori 3 (adeiladau <11m) | 50,830 |

11. Mae **tabl 2** yn dangos nifer y tai amlfeddiannaeth yng Nghymru.

**Tabl 2. Tai amlfeddiannaeth**

12. Bydd rhai tai amlfeddiannaeth yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau diogelwch tân ond ni chânt eu cwmpasu gan y dyletswyddau eraill sy'n rhan o'r gyfundrefn. Caiff tai amlfeddiannaeth eu rheoleiddio'n barod drwy Ddeddf Tai 2004 a Deddf Tai (Cymru) 2014. Dim ond "tai amlfeddiannaeth perthnasol," sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, nid y rhai a gaiff eu gosod o dan denantiaeth sengl, felly rhagwelir y bydd nifer y tai amlfeddiannaeth sy'n ddarostyngedig i'r Bil yn is.

| | **Tai amlfeddiannaeth hysbys** | **Amcangyfrif o'r holl dai amlfeddiannaeth** | **Cyfanswm poblogaeth Cymru** |
|---|---|---|---|
| Cymru | 14,434 | 18,252 | 3,164,404 |

Data: Stats Cymru – Tai amlfeddiannaeth yn ôl ardal awdurdod lleol, 2022-23

Stats Cymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, 2023

13. Mae tabl 3 yn dangos, o'r 1,347,112 o aelwydydd yng Nghymru, mae 168,444 (13%) yn byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai h.y. adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil.

**Tabl 3: Aelwydydd yng Nghymru yn ôl y math o annedd, 2021**

| | Carafán neu fath arall o strwythur symudol neu dros dro | Fflat, fflat deulawr neu randy | Tŷ neu fyngalo cyfan: Ar wahân | Tŷ neu fyngalo cyfan: Tŷ pâr | Tŷ neu fyngalo cyfan: Mewn teras | **Pob annedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob aelwyd** | 4,366 | 168,444 | 384,396 | 431,871 | 358,035 | **1,347,112** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Sut y caiff y data eu prosesu**

14. Mater i awdurdodau diogelwch adeiladau, awdurdodau diogelwch tân, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl a'r prif bersonau atebol/personau atebol eu hunain fydd bodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Erthygl 5 yr Egwyddorion / Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data yn gyffredinol mewn perthynas â'r gweithgareddau prosesu data a gyflawnir ganddynt. Bydd disgwyl iddynt ddatblygu polisïau priodol ar gadw cofnodion a chynnal eu hasesiadau eu hunain o'r effaith ar ddiogelu data (os bydd angen).

**Data'n ymwneud â throseddau**

15. Rydym wedi ystyried effeithiau'r Bil ar y system gyfiawnder. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gwblhau a chyflwyno Ffurflen Nodi Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a nododd effaith bosibl fach ar y system gyfiawnder. Ymgynghorwyd ag Adran yr Arglwyddes Brif Ustus hefyd ynghylch yr effaith y rhagwelir y bydd y Bil yn ei chael ar y system gyfiawnder.

16. Bydd yr awdurdodau diogelwch adeiladau a'r awdurdodau diogelwch tân, os byddant yn cymryd camau erlyn, yn prosesu swm bach o ddata'n ymwneud â throseddau. Ym mhob achos, caiff y data hyn eu prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith. Bydd yr awdurdodau diogelwch adeiladau a'r awdurdodau diogelwch tân yn awdurdodau cymwys (yn unol ag ystyr adran 30(1)(b) o Ddeddf Diogelu Data 2018) am fod y Bil yn darparu swyddogaethau statudol i arfer pwerau cyhoeddus at ddibenion gorfodi'r gyfraith (yn unol ag ystyr adran 31 o Ddeddf Diogelu Data 2018).

17. Wrth brosesu data'n ymwneud â throseddau o dan y swyddogaethau hyn, cyfrifoldeb yr awdurdodau diogelwch adeiladau a'r awdurdodau diogelwch tân fydd sicrhau eu bod yn prosesu'r data hynny yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018.

18. Cynigir y gyfundrefn orfodi newydd er mwyn sicrhau ac annog cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth benodol i ddata personol gael eu rhannu rhwng awdurdodau diogelwch adeiladau ac awdurdodau diogelwch tân. Os byddant yn gwneud hynny, bydd yn rhaid iddynt fodloni eu hunain bod sail gyfreithlon dros wneud hynny a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data yn fwy cyffredinol.

19. Mae data ar weithgarwch gorfodi yng Nghymru[13] o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ("Gorchymyn 2005") yn dangos bod camau gorfodi yn gymharol isel. Er enghraifft, yn y tair blynedd rhwng 2020 a 2023, cafwyd cyfanswm o 116 o hysbysiadau gorfodi, 17 o hysbysiadau gwahardd ac un erlyniad. Mae disgwyl i'r gyfundrefn newydd ailadrodd llawer o ddarpariaethau Gorchymyn presennol 2005, sy'n awgrymu, yn achos materion yn ymwneud â diogelwch tân, y bydd nifer a math y camau gorfodi y bydd eu hangen yn y dyfodol yn aros yn weddol debyg.

**Cam tri: Angenrheidrwydd a chymesuredd**

20. Wrth gynnal yr asesiad hwn, ystyriwyd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. O safbwynt data personol, rhoddwyd ystyriaeth benodol i Erthygl 8 o'r Confensiwn (yr hawl i barch at eich bywyd teuluol, eich bywyd preifat, eich cartref a'ch gohebiaeth), a'r angen i sicrhau bod unrhyw ymyrraeth yn cyd-fynd â'r gyfraith ac yn angenrheidiol e.e. er budd diogelwch y cyhoedd er mwyn diogelu iechyd a diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill. Mewn llawer o achosion, gall y bobl y gosodir dyletswyddau arnynt o dan y Bil eisoes fod yn hysbys i'w gilydd, ond ni fydd hyn yn wir ym mhob achos. Bydd unrhyw gamau i brosesu data personol (yn bennaf, enwau a manylion cyswllt y rhai sydd â dyletswyddau o dan y Bil) yn ysgogi Erthygl 8.

21. Mae atebolrwydd wrth wraidd y Bil. Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswyddau statudol ar unigolion ac endidau mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Mae hyn yn cynnwys y prif berson atebol a phersonau atebol eraill ar gyfer adeiladau rheoleiddiedig, yn ogystal â gosod dyletswyddau ar breswylwyr a pherchnogion unedau preswyl. Er mwyn cynnal atebolrwydd a'i gwneud yn bosibl i gymryd camau gorfodi, ystyrir bod prosesu data personol, fel enwau a manylion cyswllt, yn angenrheidiol. Er enghraifft, mae angen yr wybodaeth hon

[13] Stats Cymru [Gweithgarwch archwilio yn ôl canlyniad archwilio a blwyddyn ariannol]

ar yr awdurdod diogelwch adeiladau er mwyn cyhoeddi cyfarwyddiadau, hysbysiadau cydymffurfio a chamau gorfodi eraill. Ystyriwyd a allai'r darpariaethau fod yn effeithiol o hyd heb brosesu data personol neu brosesu llai o ddata personol. Fodd bynnag, credwn y byddai hynny'n lleihau effeithiolrwydd y darpariaethau yn sylweddol.

22. Mae'r gofyniad i brosesu data personol o dan adran 17 (cofrestrau) h.y. data'r prif berson atebol, wedi'i gyfyngu i gofrestru adeiladau categori 1 a chategori 2 yn unig. Mae gwybod pwy yw'r prif berson atebol yn bwysig o safbwynt atebolrwydd ac er mwyn galluogi'r awdurdod diogelwch adeiladau i sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu cyflawni. Ystyrir bod y ddarpariaeth hon yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd a diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill drwy sicrhau atebolrwydd clir dros ddiogelwch adeiladau. Ystyriwyd p'un a ellid gofyn am lai o ddata personol, os o gwbl, ond byddai hyn yn lleihau effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn sylfaenol. Mae nodi pwy yw'r prif bersonau atebol yn cynyddu tryloywder a chyfrifoldeb ac yn lleihau'r risgiau i hawliau a rhyddid pobl eraill sy'n deillio o risgiau i ddiogelwch adeiladau, ac felly ystyrir bod y ddarpariaeth yn rhesymol ac yn gymesur â'r nod. Ni fyddai angen data personol os mai endid corfforaethol oedd y person atebol.

23. Lle bo'r darpariaethau a fewnosodir gan adran 65 yn gymwys, bydd angen i landlordiaid roi gwybodaeth benodol, gan gynnwys data personol[14], i'w tenantiaid. Mae angen y darpariaethau hyn er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn cael eu hysbysu am faterion penodol a byddant, er enghraifft, yn eu galluogi i godi pryderon diogelwch â'r person/corff priodol, sy'n rhan sylfaenol o'r Bil.

24. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn nodi'n benodol bod yn rhaid prosesu data personol ond mae'n debygol y bydd angen prosesu data personol yn sgil effaith y darpariaethau hyn (gweler paragraff 8.b i 8.m uchod). Enw a manylion cyswllt y rhai sydd â dyletswyddau o dan y Bil yw'r data personol sydd fwyaf tebygol o gael eu prosesu. Lle gosodir dyletswyddau statudol ar bersonau, a lle y gwneir darpariaethau gorfodi, mae'n anochel y bydd angen prosesu rhywfaint o ddata personol. Ystyrir bod yr angen am ddarpariaeth o'r fath yn rhesymol ac yn gymesur, er mwyn sicrhau atebolrwydd a sicrhau y gall darpariaethau gael eu gorfodi lle bo angen. Er enghraifft, lle rhoddir hysbysiad cydymffurfio (o dan adran 83 o'r Bil), bydd yr hysbysiad hwn fel arfer yn cynnwys enw'r person e.e. y person sydd o dan amheuaeth o dorri gofyniad. Byddai effeithiolrwydd y gyfundrefn yn cael ei danseilio os na ellir rhoi hysbysiadau cydymffurfio.

[14] Pan fydd y landlord yn endid corfforaethol, derbynnir na fydd hyn yn gymwys.

25. Mater i'r awdurdod gorfodi sy'n rhoi'r hysbysiad cydymffurfio fydd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys sicrhau bod sail gyfreithlon dros brosesu data personol. Yn y senario hon, gallai'r ‘sail gyfreithlon’ dros brosesu data personol gynnwys y sail ‘tasgau cyhoeddus’, hynny yw, *‘the processing is necessary for the performance of a task carried out in the exercise of official authority vested in the controller’*, yn unol ag Erthygl 6(1)(e) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. Mae adran 8 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (“Deddf 2018”) yn ategu Erthygl 6(1) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data drwy ddarparu rhestr fwy penodol o enghreifftiau o ‘dasgau cyhoeddus’. Gall y gweithgarwch prosesu hwn gyd-fynd â'r enghraifft yn adran 8(c) o Ddeddf 2018 sy'n darparu fel a ganlyn: *‘the processing of personal data is necessary for…….(c) the exercise of a function conferred on a person by an enactment of a rule of law’*.

26. O safbwynt cwynion gan breswylwyr ac ymgysylltu â phreswylwyr, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i sefydlu strategaethau/systemau amrywiol e.e. systemau cwynion, systemau cofnodi digwyddiadau a strategaeth ymgysylltu â phreswylwyr. Yn ymarferol, bydd angen prosesu data personol fel rhan o'r systemau hyn e.e. enw a manylion cyswllt y sawl sy'n gwneud cwyn, ond nid yw'r Bil yn nodi bod hyn yn ofynnol.

27. Mae'n hanfodol prosesu data personol o dan y Bil er mwyn cyflawni amcanion y Bil i greu cyfundrefn reoleiddio effeithiol mewn perthynas â diogelwch adeiladau e.e. nodi'r rhai y gosodir dyletswyddau arnynt a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny. Er mwyn osgoi tanseilio effeithiolrwydd y gyfundrefn, mae'n bwysig bod y rhai sydd â dyletswyddau allweddol e.e. y prif berson atebol a'r personau atebol (mewn perthynas ag “adeiladau rheoleiddiedig”) a'r landlord a deiliaid dyletswydd (mewn perthynas â “thai amlfeddiannaeth perthnasol”) yn hysbys neu fod modd canfod pwy ydynt (i'r awdurdodau gorfodi, rhai eraill sydd â dyletswyddau a phreswylwyr).

28. Mae gan breswylwyr a pherchnogion unedau preswyl hefyd hawliau a chyfrifoldebau o dan y Bil a gall y Bil arwain at brosesu eu data personol e.e. os caiff hysbysiad rhybuddio ei roi i breswylydd neu wrth wneud cwyn ac ymateb i gŵyn gan breswylydd e.e. o dan adrannau 48 - 50. Heb weithgarwch prosesu o'r fath, byddai effeithiolrwydd y Bil yn cael ei danseilio'n sylweddol.

29. Wrth ddatblygu darpariaethau'r Bil, ystyriwyd deddfwriaeth diogelu data. Bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n prosesu data o dan y Bil, neu o ganlyniad i'r Bil, sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

30. Ystyriwyd dulliau eraill a fyddai'n sicrhau'r un canlyniad heb brosesu data personol ond nid ystyrir eu bod yn ymarferol. Bydd casglu a defnyddio data

personol yn hollbwysig er mwyn gweithredu a gorfodi'r gyfundrefn newydd yn effeithiol.

## **Atodiad 1: Naw maen prawf a allai olygu bod angen cynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data**

(Fel y dangosir yn *Guidelines on Data Protection Impact Assessment (DPIA)* (wp248rev.01))

| **Meini prawf** | **Ymateb** |
|---|---|
| Gwerthuso neu Sgorio | Nid yw'r Bil yn creu gofyniad am systemau gwerthuso neu sgorio. |
| Gwneud penderfyniadau awtomataidd gydag effaith gyfreithiol (neu debyg) sylweddol | Nid yw'r Bil yn creu gofyniad am brosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd sy'n cael effeithiau cyfreithiol neu sylweddol ar unigolion. Caiff data personol eu prosesu'n bennaf at ddibenion rheoleiddio, rheoli diogelwch a chydymffurfiaeth. |
| Monitro Systematig | Ni chaiff data personol eu monitro'n systematig o dan y Bil. |
| Data sensitif neu ddata personol iawn | Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod data personol, gan gynnwys manylion am breswylwyr, manylion personol prif bersonau atebol a phersonau atebol, ac euogfarnau yn cael eu casglu a'u prosesu. |
| Data a brosesir ar raddfa fawr | Nid oes diffiniad clir o "brosesu ar raddfa fawr". Dim ond adeiladau categori 1 a chategori 2 y mae'n rhaid eu cofrestru o dan y Bil a dim ond data personol cyfyngedig sydd eu hangen er mwyn cofrestru. Bydd darpariaethau eraill o dan y Bil yn arwain at brosesu data personol ond, yn gyffredinol, mewn perthynas ag adeilad unigol neu gam gweithredu penodol e.e. camau gorfodi yn erbyn person. |
| Paru neu gyfuno setiau data | Nid yw'r Bil yn cyfeirio'n benodol at baru neu gyfuno setiau data. Fodd bynnag, wrth gydweithio, gallai awdurdodau diogelwch adeiladau, awdurdodau diogelwch tân ac awdurdodau eraill rannu ac integreiddio data er mwyn gwella diogelwch adeiladau a chydymffurfiaeth reoleiddiol. |
| Data am destunau data sy'n agored i niwed | Nid yw'r Bil yn ymdrin yn benodol â data am destunau data sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae darpariaethau'r Bil yn ceisio cynyddu diogelwch pob preswylydd mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, a all gynnwys unigolion sy'n agored i niwed. |

| | |
|---|---|
| Cymhwyso neu wneud defnydd arloesol o ddatrysiadau technolegol neu sefydliadol newydd | Nid yw'r Bil yn cynnwys cymhwyso neu wneud defnydd arloesol o ddatrysiadau technolegol neu sefydliadol newydd. |
| Pan fo'r prosesu ei hun yn "atal testunau data rhag arfer hawl neu ddefnyddio gwasanaeth neu gontract" | Nid yw'r Bil yn nodi y bydd unrhyw weithgarwch prosesu data personol yn atal unigolion rhag arfer eu hawliau neu gael gwasanaethau. Nod y Bil yw gwella diogelwch adeiladau a chydymffurfiaeth. |